Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



# Ydych chi'n cael eich gwahardd o'r ysgol?



## Pryd y dylai ysgolion eich gwahardd?

Dylai eich ysgol eich gwahardd dim ond:

- os bydd rhywbeth difrifol yn digwydd pryd y byddwch yn torri polisi ymddygiad yr ysgol
- os byddai caniatáu i chi aros yn yr ysgol yn cael effaith andwyol ddifrifol ar addysg neu les disgyblion eraill.

Gall gwaharddiadau barhau am gyfnod penodol o amser, fod yn barhaol neu barhau am un amser cinio yn unig. Ymhob achos dylai'r pennaeth roi gwybod i chi am faint o amser y byddwch yn cael eich gwahardd.

Os byddwch yn cael eich gwahardd yn barhaol, mae eich ysgol wedi gwneud penderfyniad difrifol. Fel rheol, dyma'r cam olaf mewn proses ar gyfer delio â thramgwyddau lle y mae eich ysgol wedi rhoi cynnig ar bethau eraill yn aflwyddiannus.

Os byddwch yn cael eich gwahardd yn barhaol am dramgwydd cyntaf, efallai fod hyn oherwydd amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os ydych wedi ymosod ar rywun neu wedi rhoi cyffuriau i rywun. Efallai y bydd yn rhaid i'ch ysgol hysbysu'r heddlu.

## Adegau pan na fydd yn briodol i'ch gwahardd

Ni ddylai eich ysgol eich gwahardd am:

- fân ddigwyddiadau fel peidio â gwneud eich gwaith cartref
- perfformiad gwael yn yr ysgol
- bod yn hwyr neu chwarae triwant
- presenoldeb gwael

- bod yn feichiog
- eich cosbi am ymddygiad eich rhieni (er enghraifft, os nad oes modd iddynt ddod i gyfarfodydd).

Hefyd ni ddylai ysgolion eich gwahardd drwy eich anfon adref i'ch diogelu os ydych yn cael eich bwlio.

**Beth yw gwaharddiadau anghyfreithlon?**

Os bydd pennaeth wedi ei argyhoeddi eich bod wedi ymddwyn yn wael, wedi torri rheolau'r ysgol a bod angen eich tynnu o'r ysgol, yna gwaharddiad ffurfiol yw'r unig ffordd gyfreithlon o wneud hynny.

Ni chaniateir gwaharddiadau anghyfreithlon, a elwir hefyd yn waharddiadau 'anffurfiol' neu 'answyddogol' (er enghraifft, pan fyddwch yn cael eich anfon adref am resymau disgyblu ond nad yw'r ysgol yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwaharddiad ffurfiol).

Rhaid i'r amgylchiadau hyn ac amgylchiadau eraill, megis 'cyfnodau callio' neu 'seibiant astudio estynedig' lle y byddwch yn cael eich anfon adref am gyfnod byr, gael eu cofnodi'n ffurfiol fel gwaharddiad.

**O dan y gyfraith mae'n rhaid i bob ysgol yng Nghymru fod â pholisi ymddygiad. Dylai'r polisi hwn annog ymddygiad da ac atal ymddygiad gwael.**





## Dweud wrth eich rhieni neu eich gofalwyr eich bod wedi cael eich gwahardd

Mae'n rhaid i benaethiaid ymdrin â gwaharddiadau mewn modd teg.

Os byddant yn eich gwahardd mae'n rhaid i'ch pennaeth roi gwybod i'ch rhiant neu ofalwr ar unwaith. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn dros y ffôn a hefyd anfon llythyr ar yr un diwrnod. Os ydych yn 11 oed neu'n hŷn mae'n rhaid i'r pennaeth roi gwybod i chi hefyd.

Os ydych yn cael eich gwahardd am fwy na 15 diwrnod, mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) sicrhau eich bod yn derbyn addysg amser llawn o'r unfed diwrnod ar bymtheg, un ai mewn ysgol arall neu, os bydd angen, mewn uned cyfeirio disgyblion neu rywle arall.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhaid i bob corff llywodraethu ysgol sefydlu pwyllgor disgyblu. Un o swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw yw edrych ar achosion o wahardd yn eich ysgol, ac o dan rai amgylchiadau bydd y pwyllgor yn cyfarfod i adolygu achos, sef os byddwch:

- wedi eich gwahardd yn barhaol,
- wedi eich gwahardd am fwy na phum diwrnod mewn un tymor,
- yn colli arholiad oherwydd eich bod wedi eich gwahardd

Aelodau o'r corff llywodraethu fydd ar y pwyllgor, ond nid y pennaeth.

Rhaid i aelodau'r pwyllgor gael hyfforddiant er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn. Rhaid i'r pwyllgor disgyblu gyfarfod os ydych wedi eich gwahardd am fwy na 15 diwrnod.

Os oes gan aelod o'r pwyllgor unrhyw gysylltiad â chi neu'r digwyddiad, a allai olygu na all fod yn ddiduedd neu yn deg, ni ddylai fod yn bresennol yn eich gwrandawiad.

Efallai y bydd y pwyllgor yn ystyried mwy nag un gwaharddiad mewn cyfarfod, cyn belled ag y cedwir at y terfynau cyfreithiol o safbwynt amser a bennir ar gyfer pob achos.

Pan fydd eich pennaeth yn hysbysu'r pwyllgor disgyblu eich bod wedi cael eich gwahardd, mae'n rhaid i'r pwyllgor ystyried unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig gennych chi, eich rhiant neu eich gofalwr (hynny yw, unrhyw beth yr ydych yn dymuno ei ddweud). Efallai y bydd cadeirydd y pwyllgor yn cytuno i gyfarfod â'ch rhiant neu eich gofalwr os yw eich rhiant neu eich gofalwr yn dymuno trafod eich gwaharddiad. Er nad oes terfyn amser cyfreithiol ynghlwm wrth hyn, dylai'r cadeirydd geisio ateb y ceisiadau hyn cyn gynted â phosibl.

Os bydd y pwyllgor disgyblu yn cytuno â'ch pennaeth y dylech gael eich gwahardd yn barhaol, mae'n rhaid iddynt nodi'r canlynol yn y llythyr penderfyniad y byddant yn ei anfon at eich rhieni neu ofalwyr (a chi o bosibl):

- y rhesymau dros eu penderfyniad
- y dyddiad olaf y gall eich rhiant neu ofalwr apelio yn erbyn y penderfyniad
- pryd y gallwch apelio.



**Beth yw panel apêl annibynnol?**

Mae gan rieni a gofalwyr hawl i wrandawiad gan banel apêl annibynnol os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad y pwyllgor disgyblu.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu'r panel apêl annibynnol a phenodi clerc.

Swyddogaeth y panel apêl annibynnol yw penderfynu, wrth ystyried apêl, a wnaethoch yr hyn a honnir. Golyga hyn y dylai eich pennaeth, wrth ymchwilio i honiadau mwy difrifol, fod wedi casglu ac ystyried ystod eang o dystiolaeth i benderfynu a yw hi'n fwy tebygol na pheidio eich bod wedi cyflawni'r tramgwydd.

Rhaid i'r panel apêl annibynnol gyfarfod i drafod apêl erbyn y 15fed diwrnod ysgol fan bellaf ar ôl y dyddiad pryd y gwnaed yr apêl.

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o aelodau'r panel apêl annibynol gytuno ar y penderfyniad. Gall y panel:

- gytuno â'r penderfyniad i'ch gwahardd
- gwrthdroi'r penderfyniad i'ch gwahardd a hysbysu'r ysgol bod yn rhaid iddi eich derbyn yn ôl
- penderfynu nad yw'n ymarferol, oherwydd amgylchiadau eithriadol neu resymau eraill, i'ch derbyn yn ôl i'r ysgol.

Unwaith y bydd y panel apêl annibynnol yn cytuno ar benderfyniad ni fydd modd ei newid.

Gallwch weld canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion drwy fynd i **llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/exclusion/?skip=1&lang=cy**

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

WG24099 | ISBN: 978 1 4734 3022 8 | © Crown copyright 2015